# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 11 Mehefin 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(204)

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 2 i 4 a 6 i 9. Tynnwyd cwestiynau 1, 5 a 10 yn ôl.

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd cwestiynau 1 i 6, 8 i 9 ac 11 i 15. Tynnwyd cwestiynau 7 a 10 yn ôl. Atebwyd cwestiwnau 1, 3, 8, 9 and 14 gan y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi.

### 3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol

Dechreuodd yr eitem am 15.04

Gofynnwyd y 4 cwestiwn.

### 4 Dadl ar Araith y Frenhines

Dechreuodd yr eitem am 15.16

**Yn unol â Rheol Sefydlog 11.15 (i), penderfynodd y Pwyllgor Busnes y byddai unrhyw bleidlais angenrheidiol yn digwydd ar ôl y ddadl.**

NDM5522 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2014/2015.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

Gwelliant 1 - Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y model datganoli treth incwm a gynigir ar gyfer Cymru, ym Mil Cymru, yn cael ei gyfyngu gan yr hyn a elwir yn fecanwaith"cyd-gerdded".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 12 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y diffyg cynigion yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU i symud ymlaen ag unrhyw feysydd datganoli pellach a argymhellwyd gan adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 9 | 26 | 17 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Gwelliant 3 - Elin Jones (Ceredigion)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU fod wedi cynnwys deddfwriaeth i ail-gydbwyso economi'r DU mewn modd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol ac yn hyrwyddo tegwch economaidd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 17 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn parhau i adeiladu economi gryfach a chymdeithas decach.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 35 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyhoeddiad yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar ofal plant di-dreth a fydd yn golygu y bydd oddeutu 83,600 o deuluoedd yng Nghymru yn cael budd o £2,000 oddi ar gost eu gofal plant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 9 | 26 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd y Bil Troseddau Difrifol, yn dilyn yr ymgyrch gan Aelod Seneddol Ceredigion, y Democrat Rhyddfrydol Cymreig Mark Williams, yn cynnwys darpariaeth i nodi'n glir fod creulondeb sy'n debygol o achosi niwed seicolegol i blentyn yn drosedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 21 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r diwygiadau pensiwn chwyldroadol a gynigiwyd gan Weinidog y Democratiaid Rhyddfrydol Steve Webb sydd i'w cynnwys yn y Bil Pensiynau Preifat, a fydd yn rhoi rhyddid a diogelwch i bobl wedi ymddeol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 21 | 26 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd y Draft Governance of National Parks (England) & the Broads Bill yn cynnwys darpariaethau ar gyfer etholiadau uniongyrchol ar gyfer awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Lloegr, yn dilyn ymgyrchu gan Aelod Seneddol Brycheiniog a Sir Faesyfed, y Democrat Rhyddfrydol Roger Williams, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi diwygiadau tebyg ar waith yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 5 | 21 | 26 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth y DU, fel yr amlinellir yn y rhaglen ddeddfwriaethol, i adfer lles ariannol yn y DU.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 35 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd y Biliau yn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn sicrhau dyfodol gwell a mwy disglair i bobl Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 0 | 35 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn rhoi mesurau allweddol ar waith i gynyddu ymhellach y lwfans personol i £10,500, gan adeiladu ar yr ymrwymiad ym maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer etholiad cyffredinol 2010 i gynyddu trothwy'r dreth incwm i£10,000.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 11:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 21 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 11.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5522 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar gyfer 2014/2015.

2. Yn gresynu bod y model datganoli treth incwm a gynigir ar gyfer Cymru, ym Mil Cymru, yn cael ei gyfyngu gan yr hyn a elwir yn fecanwaith"cyd-gerdded".

3. Yn credu y dylai rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU fod wedi cynnwys deddfwriaeth i ail-gydbwyso economi'r DU mewn modd sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol ac yn hyrwyddo tegwch economaidd.

4. Yn croesawu’r ffaith y bydd y Bil Troseddau Difrifol, yn dilyn yr ymgyrch gan Aelod Seneddol Ceredigion, y Democrat Rhyddfrydol Cymreig Mark Williams, yn cynnwys darpariaeth i nodi’n glir fod creulondeb sy’n debygol o achosi niwed seicolegol i blentyn yn drosedd.

5. Yn croesawu’r ffaith y bydd rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU yn rhoi mesurau allweddol ar waith i gynyddu ymhellach y lwfans personol i £10,500, gan adeiladu ar yr ymrwymiad ym maniffesto’r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer etholiad cyffredinol 2010 i gynyddu trothwy’r dreth incwm i£10,000.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 5 | 12 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi’i ddiwygio.**

5 Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.20

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5524 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi Wythnos Gofalwyr 2014 sy'n cydnabod ac yn dathlu cyfraniad mwy na 370,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, sy'n darparu cymorth amhrisiadwy i deulu a ffrindiau.

2. Yn nodi'r dystiolaeth gynyddol o rôl hynod heriol gofalu, a all gael effaith andwyol ar iechyd, cyfleoedd cyflogaeth, gweithgarwch cymdeithasol a hamdden y rhai sy'n rhoi gofal yn ddi-dâl.

3. Yn nodi canfyddiadau adroddiad ‘Prepared to Care?’ 2013 a ganfu bod 75 o ofalwyr heb fod yn barod am rôl ofalu ac nid oedd 81 y cant yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, sy'n aml yn golygu bod gofalwyr yn teimlo'n agored i niwed ac yn ynysig.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cefnogi ymgyrch ymwybyddiaeth i annog hunan-nodi a mynediad i gymorth a gwella dealltwriaeth y cyhoedd o rôl gofalwyr;

b) datblygu gwybodaeth i gyflogwyr gynorthwyo gweithwyr sy'n ceisio cael cydbwysedd rhwng eu gwaith a'u rolau gofalu; ac

c) gweithio gyda darparwyr addysg i gynnig darpariaeth mwy hyblyg i alluogi gofalwyr o bob oed i gael mynediad i gyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 11 | 49 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd yr eitem am 18.15

**6 Dadl Fer**

Dechreuodd yr eitem am 18.15

**NDM5523 Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)**

Datganoli: Ysgogwr Arloesedd

Sut y mae datganoli wedi rhoi'r cyfle i ddatblygu mesurau arloesol yng Nghymru a sut y mae elfennau arloesol o'r fath wedi dylanwadu ar weddill y DU.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.36

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 17 Mehefin 2014**